

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2015

Crynodeb i Ddinasyddion

Trosolwg

Mae Cymru yn elwa ar oddeutu €2.4 biliwn o gyllid yr UE o dan bedair Rhaglen y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y cyfnod 2014-2020, gan gynnwys oddeutu €1.2 biliwn o dan Raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd¹. Bydd y Rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau sy'n gallu cyfrannu at greu swyddi cynaliadwy a thwf economaidd, gan grynhoi'r adnoddau yn y meysydd hynny lle mae modd cael yr effaith fwyaf.

Dyma'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol cyntaf ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac mae'n ymdrin â'r blynyddoedd adrodd 2014 a 2015. Yn 2014, canolbwyntiwyd yn bennaf ar gynllunio a chyd-drafod y Rhaglenni Gweithredu newydd â'r Comisiwn Ewropeaidd, a rhoddwyd trefniadau gweithredu ar waith yn ystod y flwyddyn honno hefyd. Cymeradwywyd Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar 21 Tachwedd 2014.

Prif gyflawniadau yn ystod y blynyddoedd adrodd 2014/2015

- Erbyn diwedd 2015, mae €225 miliwn o Grant yr UE wedi ei ymrwymo i 15 gweithrediad sydd, ynghyd â chyllid cyfatebol, yn cynrychioli buddsoddiad o €394 miliwn.
- Sefydlwyd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn ffurfiol ar 05 Rhagfyr 2014 a chyfarfu bedair gwaith yn ystod 2015. Mae gan y Pwyllgor drosolwg strategol o'r holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru.
- Yn 2015 cytunodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn ffurfiol ar y canlynol ar gyfer Rhaglenni'r Gronfa Strwythurol:
 - y meini prawf o ran asesu a dethol cynlluniau
 - strategaeth Fonitro a Gwerthuso
 - cynllun Cyfathrebu

Gellir gweld y dogfennau hyn a chofnodion Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar y tudalennau hynny ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Chronfeydd Ewropeaidd.


- Mae systemau wedi eu rhoi ar waith i reoli'r Rhaglen ac mae cyfres o ganllawiau wedi ei llunio a'i chyhoeddi ar gyfer sefydliadau sy'n dymuno gwneud cais am gyllid.

¹ Ffigurau ar gyfer dyraniadau Grant yr UE

- Awdurdodwyd yr unig rag-amod sy'n dal i fod yn berthnasol i'r cynllun, yn ymwneud â chynllunio trafnidiaeth, gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- Yn ystod 2014/2015 gwnaed ymchwil ynglŷn â darparu grantiau i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru gan gynnwys gwaith ymchwil yn ymwneud â'r posibilrwydd o sefydlu offerynnau ariannol i ymwneud â phob elfen o'r rhaglen. Gellir gweld yr ymchwil hwn ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Cynnydd ariannol

Mae'r siartiau canlynol yn dangos maint yr ymrwymiad (cyfanswm a Grant yr UE) wedi ei ddadansoddi fesul echel Blaenoriaeth:



Gweithrediadau a gymeradwywyd hyd at ddiwedd 2015

Isod mae disgrifiad o'r gweithrediadau sydd wedi eu cymeradwyo o dan bob Blaenoriaeth Rhaglen. Mae astudiaethau achos o weithrediadau cymeradwy ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/eu-funding

Blaenoriaeth 1 – Ymchwil ac Arloesi

Mae wyth gweithrediad Ymchwil ac Arloesi wedi eu cymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys y 'porth' i'r Flaenoriaeth drwy gyfrwng y gweithrediad *Smart Innovation*. Caiff hyn ei ategu gan y talebau a'r grantiau arloesi ar gyfer datblygu cynnyrch sydd ar gael drwy'r gweithrediad *Smart Cymru*. Mae cydweithio yn fecanwaith allweddol i gymell arloesi a gwaith ymchwil o safon, a bydd y cynllun *Smart Expertise* yn sicrhau bod gan Gymru fecanwaith strategol i gymell yr agweddau hyn. Mae'r tri gweithrediad gweithio ar y cyd i ddarparu cynnig arloesi integredig a chânt eu gwerthuso ar y cyd.

Mae'r Canolfannau Rhagoriaeth yn cynnwys *Campws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth* (sy'n canolbwyntio ar yr economi fiolegol) a gymeradwywyd tua diwedd 2014, a'r *Sefydliad Ymchwil Peirianeg a Deunyddiau Uwch* sy'n cael ei arwain gan y sector preifat ac a gymeradwywyd tuag at ddiwedd 2015. Caiff y seilwaith ffisegol ei ategu drwy ddefnyddio ymchwiliwr yn strategol drwy'r gweithrediad *Sêr Cymru 2* a gymeradwywyd yn 2015 hefyd. Mae cysylltiad agos rhwng y gweithrediad hwn a chynllun cysylltiedig a gefnogir drwy gyfrwng y Gronfa Gydweithredol o dan Horizon 2020.

Mae'r maes Blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar 'Carbon Isel, ynni a'r amgylchedd' wedi datblygu'n dda ac mae'n cynnwys y gweithrediad *M-Sparc* a gymeradwywyd yn 2015. Bydd y cynllun hwn yn sicrhau y rhoddir cefnogaeth briodol i fusnesau yn y sector carbon isel allu manteisio ar bob cyfle sydd ar gael iddynt er mwyn cynnal a meithrin y sector. Bydd y gweithrediad *BEACON+*, sy'n adeiladu ar y rhagoriaeth a gyflawnwyd yn y rhaglen flaenorol ac a oedd yn arbenigo mewn puro biolegol, yn cael effaith fwy uniongyrchol drwy gydweithio â diwydiant.

Roedd dau 'fwlch' posibl wedi dod i'r amlwg yn y portffolio Ymchwil ac Arloesi: masnacheiddio gwyddorau bywyd ac ymchwil iechyd, a masnacheiddio TGCh ac ymchwil yn ymwneud â'r economi ddigidol. Yn ystod 2015 cafwyd trafodaethau ynglŷn ag arloesi yn y sector gwyddorau bywyd/gofal iechyd ac mae'n bosibl y bydd hyn yn esgor ar weithrediad strategol.

Blaenoriaeth 2 – Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig

Cymeradwywyd pedwar gweithrediad o dan yr echel Flaenoriaeth hon. Adwaenir y rhain fel cyfres 'Busnes Cymru' o weithrediadau, sef *Cefnogi Mentergarwch*, *Cefnogi Busnesau Bach a Chanolig*, *Busnes Cymdeithasol Cymru* a *Manteisio ar Fand Eang*. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar hyrwyddo mentergarwch a sefydlu busnesau ac ar helpu busnesau bach a chanolig sydd â'r potensial i dyfu, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n llesteirio'r twf hwnnw.

Gan adlewyrchu'r pwyslais yn Rhaglenni 2014-20 ar gyllid ad-daladwy, yn arbennig drwy gyfrwng Offerynnau Ariannol, datblygwyd *Cronfa Fusnes Cymru* yn ystod 2015 ar raddfa debyg i'r cronfeydd JEREMIE a ddarparwyd yn Rhaglenni 2007-13. Bydd

cynnyrch yn ymwneud â dyled, mesanîn ac ecwiti ar gael drwy'r Gronfa newydd i lenwi'r bylchau a nodwyd mewn 'asesiad rhag-werthusol' penodol.

Bydd y gweithrediadau hyn yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r Flaenoriaeth hon. Mae bylchau posibl nad oes modd eu llenwi drwy ddefnyddio offeryn ariannol traddodiadol, ond nad ydynt yn cyfiawnhau yn llawn y defnydd o grantiau i wneud hynny, yn cael eu hystyried yn weithrediadau cymorth ad-daladwy arbenigol posibl: er enghraifft, cynllun cyllido Mentrau Cymdeithasol fyddai'n gydnaws â chyllid ad-daladwy a gweithrediadau Busnes Cymru, ac a oedd yn cael ei ddatblygu yn ystod 2015.

Nid oes unrhyw dystiolaeth eglur ar hyn o bryd o unrhyw fylchau ychwanegol yn y Flaenoriaeth; fodd bynnag, byddwn yn cadw llygad ar hyn drwy barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid y rhanbarth a'r sector.

Blaenoriaeth 3 – Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Cymeradwywyd dau weithrediad o dan yr echel Flaenoriaeth hon. Dau weithrediad dan arweiniad y sector preifat oedd y rhain – *Deep Green* a *WaveSub*. Bydd y gweithrediadau yn ymdrin â datblygu technoleg llanw a thonau ac, os ydynt yn llwyddiannus, bydd y technolegau hyn yn agosach at gael eu masnacheiddio ac yn fwy deniadol i fuddsoddwyr masnachol.

Dau weithrediad a oedd yn cael eu datblygu yn ystod 2015 oedd y 'Parthau Arddangos', un ar gyfer dyfeisiau Tonnau oddi ar arfordir Gorllewin Cymru ac un ar gyfer dyfeisiau Llanw oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Mae datblygu'r gweithrediadau hyn yn broses gymhleth â nifer o risgiau a phroblemau yn perthyn iddi. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn cyfarfod yn rheolaidd i ddatrys y problemau hyn.

Roedd yr elfen o'r Flaenoriaeth hon a oedd yn ymwneud ag ynni cymunedol ar raddfa fach yn cael ei datblygu yn ystod 2015, ac roedd nifer o gynllun ynni adnewyddadwy ar raddfa fach ar y gweill. Cafwyd trafodaethau â Llywodraeth Cymru hefyd ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni y stoc dai bresennol mewn ardaloedd lle mae tlodi tanwydd, a thrafodaethau â Llywodraeth Cymru a'r sector preifat i gynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bychain.

Blaenoriaeth 4 – Cysylltedd a Datblygu Trefol

Ni chymeradwywyd unrhyw weithrediadau o dan yr echel Flaenoriaeth hon yn ystod y cyfnod; fodd bynnag, gwnaed cynnydd da yn ystod 2015 o ran datblygu gweithrediadau. Nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried natur y buddsoddi yn y seilwaith. Gydag arian yn brin, y flaenoriaeth fydd cefnogi cynlluniau a all esgor ar weddnewid hirdymor. Bydd buddsoddi mewn ffyrdd TEN-T yn canolbwyntio ar yr A40 yng Ngogledd Cymru ac ar yr A55 yng Ngogledd Cymru fel y cytunwyd yn y rhaglenni.

Mae cynigion hefyd yn cael eu llunio i ddatblygu cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy a rhyngfoddol sy'n ei gwneud yn haws cael mynediad at waith ac addysg, ac mae disgwyl i'r datblygiadau hyn gyflymu yn ystod 2016. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd sy'n gysylltiedig â chynllun gweddnewid y Metro, a bydd y prosiectau cyntaf o dan Gam 1 y Cynllun Metro yn cael eu cymeradwyo yn gynnar yn 2016.

Yn ystod 2015 roedd nifer cyfyngedig o safleoedd strategol oedd wedi eu blaenoriaethu'n rhanbarthol yn cael eu datblygu er mwyn creu lleoliadau deniadol ar gyfer busnesau, ynghyd â nifer cyfyngedig o brosiectau yn ymwneud â thwristiaeth ac adfywio canol trefi. Mae'r rhain yn cynnwys gweithrediadau (*Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, Cyrchfannau Denu Twristiaeth a Safleoedd a Mangreoedd Strategol*). Yn yr un modd, roedd cynigion ar gyfer datblygu *Band Eang y Genhedlaeth Nesaf* ar gyfer seilwaith 'Gwibgyswllt' (100Mb yr eiliad) a 'Chyflym lawn' (30Mb yr eiliad) hefyd yn cael eu datblygu yn ystod 2015.

Blaenoriaeth 5 – Cymorth Technegol

Cymeradwywyd un cynllun o dan yr echel Flaenoriaeth hon. Bydd cynlluniau Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector yn darparu gwasanaeth cenedlaethol, cyson er mwyn cynnig gwybodaeth a chynghor, hyfforddiant a digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio i'r trydydd sector ynghyd â chynrychiolaeth ar y Rhaglen, gan sefydlu cysylltiadau rhwng ffynonellau cyllido eraill yr UE megis Erasmus+ a Horizon 2020.

Roedd rhagor o weithrediadau yn cael eu datblygu yn ystod 2015, gan gynnwys ceisiadau gan Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol o bedwar rhanbarth Cymru a gweithrediadau gan Adran Wyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys eu cynllun cymorth a chostau refeniw Cyrff Cyfryngol.